**Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chynllunio**
**Local Government and Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20fed Mawrth 2026

Annwyl Benaethiaid Cynllunio,

Anfonir y llythyr hwn i'ch hysbysu bod y dogfennau canlynol wedi cael eu cyhoeddi i gefnogi gweithredu **Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol (TAN15).**

Nodyn Cyngor Technegol 15: Cwestiynau Cyffredin

Ers cyhoeddi TAN15 ar 31 Mawrth 2025, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gyflwyno egwyddorion allweddol ac ateb unrhyw gwestiynau ynghylch gweithredu'r ddogfen honno. Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin yn dwyn ynghyd y cwestiynau a ofynnwyd amlaf o safbwynt gweithdrefnol a pholisi, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir y ddogfen er gwybodaeth yn unig gan roi adlewyrchiad o TAN15, ac nid yw'n cyflwyno unrhyw ofynion newydd.

Lwfansau Newid Hinsawdd ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd

Yn ôl TAN15 rhaid ystyried yr effaith bosibl y newid hinsawdd ar ddatblygiad, drwy gydol ei oes, mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Pwrpas hyn yw sicrhau na cheir datblygiad lle bo'r perygl o lifogydd yn annerbyniol nawr nac yn y dyfodol, a bod datblygiad a ganiateir wedi'i gynllunio i wrthsefyll y perygl cynyddol o lifogydd a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.

Dylid ymgorffori cynnydd yn llifoedd brig afonydd a lefelau'r môr, sy'n deillio o newid hinsawdd, mewn Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ac mewn Asesiadau Canlyniadau Llifogydd, a baratoir i gefnogi tir a neilltuir yn y cynllun datblygu a cheisiadau cynllunio unigol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.

Mae'r ddogfen ganllaw ar Lwfansau Newid Hinsawdd ac Asesiadau Canlyniadau Llifogydd a gyhoeddwyd yn 2021 wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu Amcanestyniadau Hinsawdd diweddaraf y DU (UKCP18). Dylid cynnwys yr amcanestyniadau sydd wedi'u diweddaru mewn Asesiadau Canlyniadau Llifogydd i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio a gyflwynir o 1 Ebrill 2026.


Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi diweddaru dogfen Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd: Canllawiau ar gyfer awdurdodau rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Mae'r ddogfen ganllaw a'r Cwestiynau Cyffredin ar gael i'w gweld ar ein gwefan.

- Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol | LLYW.CYMRU
- Lwfansau newid hinsawdd ac asesiadau o ganlyniadau llifogydd | LLYW.CYMRU

- Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: addasu i newid yn yr hinsawdd | LLYW.CYMRU

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**